Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 14 Mai 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(131)v5

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Datganiad gan y Prif Weinidog: Cynnydd o ran rhoi "Ynni Cymru" ar waith (30 munud)

Dogfen Ategol

Cynnydd o ran rhoi "Ynni Cymru" ar waith

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16: Adroddiad Terfynol (30 munud)

Dogfen Ategol

Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16: Adroddiad Terfynol

### 5. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Adroddiad Guilford (30 munud)

Dogfen Ategol

Argymhellion Adroddiad Guilford

**6. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Twf Swyddi Cymru - flwyddyn yn ddiweddarach (30 munud)**

**7. Dadl: Cryfhau Democratiaeth Llywodraeth Leol (60 munud)**

NDM5237 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod gwerth hyrwyddo democratiaeth leol sy'n agored, yn dryloyw ac yn atebol a phwysigrwydd annog mwy o amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**
**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'Yn cydnabod gwerth hyrwyddo democratiaeth leol sy'n agored, yn dryloyw ac yn atebol a phwysigrwydd annog mwy o amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol' a rhoi 'Yn gwerthfawrogi angenrheidrwydd dadlau dros ddemocratiaeth leol sy'n effeithlon, yn agored, yn dryloyw ac yn atebol a phwysigrwydd annog mwy o amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol' yn ei le.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl 'amrywiaeth' cynnwys 'ac ymgysylltu â rhanddeiliad'

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y pen draw i hwyluso ffrydio byw yn ystod pob un o gyfarfodydd craffu a chabinet cynghorau.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno agenda gynhwysfawr a fydd yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â bod yn agored, tryloywder ac atebolrwydd mewn democratiaeth leol a llywodraeth leol.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau ei bod yn cefnogi datganoli cyfrifoldeb dros etholiadau llywodraeth leol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi cyflwyno system etholiadol deg a chyfrannol i sicrhau bod canlyniadau yn cyfleu'r ffordd y mae pobl yn pleidleisio ac yn cynrychioli eu cymunedau lleol yn well, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu argymhelliad Comisiwn Sunderland yn 2002 drwy hyrwyddo deddfwriaeth i gyflwyno system un bleidlais drosglwyddadwy ar gyfer cynghorau lleol.

**Gwelliant 7 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw oddeutu 77,000 o bobl ifanc 16 a 17 oed yng Nghymru yn cael pleidleisio ar hyn o bryd ac yn credu y byddai atebolrwydd democrataidd yn cael ei gryfhau drwy ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol.

**8. Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau (5 munud)**
**NDM5241 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd )**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Bethan Jenkins (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau yn lle Elin Jones (Plaid Cymru).

**NDM5242 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd )**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Elin Jones (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Jocelyn Davies (Plaid Cymru).

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 15 Mai 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Mai 2013 i'w hateb ar 14 Mai 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1052(FM)

2. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd cyffuriau priodol ar gyfer afiechydon prin? OAQ(4)1049(FM)

3. **Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Gwasanaeth Cludo Cleifion mewn Achosion nad ydynt yn rhai Brys? OAQ(4)1057(FM)

4. **Elin Jones (Ceredigion)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar ynni gwynt? OAQ(4)1053(FM)W

5. **Lynne Neagle (Torfaen)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog pobl yn Nhorfaen i gymryd rhan mewn chwaraeon? OAQ(4)1061(FM)

6. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yr uned gyflawni dros y chwe mis diwethaf? OAQ(4)1063(FM)

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar Gymru? OAQ(4)1055(FM)

**8. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1065(FM)

**9. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynlluniau arfaethedig i ad-drefnu gwasanaethau gofal iechyd ledled de Cymru, sef Rhaglen De Cymru? OAQ(4)1051(FM)

**10. Ken Skates (De Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi gofalwyr maeth yng Nghymru? OAQ(4)1060(FM)

**11. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd i adfywio'r iaith Gymraeg? OAQ(4)1067(FM)W

**12. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwasanaeth iechyd meddwl sy'n cael ei ddarparu yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1059(FM)

**13. Sandy Mewies (Delyn):** A yw Llywodraeth Cymru wedi asesu goblygiadau posibl trafod cytundeb masnach rydd rhwng UDA a'r Undeb Ewropeaidd ar Gymru? OAQ(4)1056(FM)

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth i fusnesau bach yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1058(FM)

**15. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaeth sgrinio ar gyfer retinopathi diabetig? OAQ(4)1050(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 21 Mai a dydd Mercher 22 Mai 2013

Toriad: Dydd Llun 27 Mai 2013 – Dydd Sul 2 Mehefin 2013

Dydd Mawrth 4 Mehefin a dydd Mercher 5 Mehefin 2013

Dydd Mawrth 11 Mehefin a dydd Mercher 12 Mehefin 2013

*********************************************************************

Dydd Mawrth 21 Mai 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Diwygiad Lles (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Law yn Llaw at Iechyd – Adroddiad Chwe Mis (45 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle (30 munud)
- Dadl: Hyrwyddo Twf Gwyrdd drwy Effeithlonrwydd Adnod (60 munud)

Dydd Mercher 22 Mai 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Araith y Frenhines (120 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid Buddsoddi i Arbed (60 munud)
- Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 4 Mehefin 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio (30 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol y Bil Teithio Llesol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Teithio Llesol (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 5 Mehefin**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl Rheol Sefydlog 26.44 Cyfnod 3 ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae’r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.
  Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:
  Cynnig Rheol Sefydlog 26.47 Cyfnod 4 i gymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Russell George (Sir Drefaldwyn) (30 munud)

**Dydd Mawrth 11 Mehefin 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Y Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Amgen i Gymru) 2013 (15 munud)

**Dydd Mercher 14 Mehefin**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Leanne Wood (Canol De Cymru) (30 munud)